**CYNGOR BRO MORGANNWG**

**CYFARWYDDIAETH YR AMGYLCHEDD A GWASANAETHAU TAI**

# POLISI AR GYFER DARPARU TRAFNIDIAETH O'R CARTREF I'R YSGOL/COLEG

**MEDI 2023**

**(Diwygiwyd Awst 2022)**

**Miles Punter**
**Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Gwasanaethau Tai**

**Emma Reed Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

**Manylion y Tîm Trafnidiaeth Teithwyr**

Yng Nghyngor Bro Morgannwg, ymdrinnir â'r holl swyddogaethau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth i'r ysgol a'r coleg gan yr Adran Gwasanaethau Trafnidiaeth.

**Gellir anfon unrhyw ohebiaeth at:**

**Trafnidiaeth Prif Ffrwd – schooltransport@valeofglamorgan.gov.uk**
**Trafnidiaeth ADY – schooltransportsen@valeofglamorgan.gov.uk**

Cyngor Bro Morgannwg
Tîm Trafnidiaeth Teithwyr
Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth
Depo'r Alpau
Quarry Road
Gwenfô
CF5 6AA

Y rhif ffôn cyswllt yw: **01446 700111**

**Gwefan**

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/Transportation/Transport.aspx

**POLISI TRAFNIDIAETH O'R CARTREF I'R YSGOL/COLEG**

Bwriad y Cyngor yw darparu system ddibynadwy o drafnidiaeth a fydd yn ceisio cludo dysgwyr yn ddiogel, yn brydlon ac mewn cysur. Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i'r holl wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.

**Y FFRAMWAITH CYFREITHIOL**

Mae Gwasanaethau Trafnidiaeth i'r Ysgol/Coleg yn cael eu rheoli gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

Deddf Addysg (Darpariaethau Amrywiol) 1996
Deddf Trafnidiaeth 1985
Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008
Rheoliad Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009
Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011
Y Ddarpariaeth Statudol ar gyfer Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol 2014
Canllawiau Statudol ynghylch y Cod Ymddygiad wrth Deithio 2009
Canllawiau ar Asesiadau Risg Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol 2009
Canllawiau ar ddarparu gwregysau diogelwch ar gludiant penodedig i ddysgwyr 2012
Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig, 2002
Deddf AAA ac Anabledd 2001
Deddf Cerbydau Teithwyr Cyhoeddus 1985
Hygyrchedd bysus a choetsis a Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 2000

Yn ogystal, dylid ystyried y polisïau canlynol wrth wneud penderfyniadau ar ddarpariaeth trafnidiaeth:

Deddf Teithio Llesol 2013
Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru 2021

Mae dogfen Cod Ymarfer hefyd ar gael i ddangos cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a gofynion statudol ac mae'n hysbysu cyfrifoldebau:

Gweithredwyr Trafnidiaeth Ysgol
Gyrwyr Trafnidiaeth Ysgol
Cynorthwywyr Teithwyr Trafnidiaeth Ysgol
Disgyblion
Rhieni
Ysgolion

**TABL CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| Ysgol Addas Agosaf | Tudalen 5 |
| Hawl i Drafnidiaeth Ysgol Brif Ffrwd | Tudalen 5 |
| Hawl i Drafnidiaeth Ysgol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Tudalen 7 |
| Trafnidiaeth Addysg Bellach (16 i 19 oed) | Tudalen 9 |
| Gwybodaeth Ychwanegol | Tudalen 10 |
| Codau Canllawiau | Tudalen 10 |
| Cod Ymddygiad wrth Deithio Llywodraeth Cymru | Tudalen 11 |
| Ffurflenni Cais am Drafnidiaeth (Trafnidiaeth Ysgol ADY) | Tudalen 11 |
| Pasys Bws (Prif Ffrwd) | Tudalen 11 |
| Pasys Bws Newydd | Tudalen 11 |
| Brodyr a chwiorydd | Tudalen 12 |
| Asesiadau Llwybr Cerdded | Tudalen 12 |
| Llwybrau Cerdded nad ydynt ar gael | Tudalen 12 |
| Cysylltiadau Trafnidiaeth | Tudalen 12 |
| Prynu Sedd Sbâr | Tudalen 13 |
| Taliadau i rieni/gofalwyr | Tudalen 13 |
| Newid cyfeiriad | Tudalen 14 |
| Newid Dalgylchoedd | Tudalen 14 |
| Gwahanol Gyfeiriad Rhieni | Tudalen 14 |
| Newid Cyfeiriad – disgyblion TGAU | Tudalen 14 |
| Trafnidiaeth am ddim wedi'i ddyfarnu ar gam | Tudalen 14 |
| Cyfrifoldeb rhiant/gofalwr cyn mynd ar y cerbyd ac wrth ddod oddi ar y cerbyd | Tudalen 14 |
| Gollwng disgyblion Cynradd Prif Ffrwd yn y prynhawn | Tudalen 15 |

| | |
|---|---|
| Gollwng disgyblion ADY yn y prynhawn | Tudalen 15 |
| Gwregysau Diogelwch | Tudalen 15 |
| Teledu Cylch Cyfyng | Tudalen 16 |
| Cynorthwywyr Teithwyr | Tudalen 16 |
| Amodau Tywydd Garw | Tudalen 16 |
| Monitro Contractau | Tudalen 16 |
| Gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | Tudalen 16 |
| Hyfforddiant | Tudalen 17 |
| Cyswllt Ysgolion | Tudalen 17 |
| Cyflyrau Meddygol Dros Dro | Tudalen 17 |
| Cyflyrau Meddygol Rhieni/Gofalwyr | Tudalen 18 |
| Difrod i Gerbydau (prif ffrwd) | Tudalen 18 |
| Gweithdrefn Gwyno | Tudalen 18 |
| Y Broses Apelio | Tudalen 18 |


## YSGOL ADDAS AGOSAF

At ddibenion y polisi hwn ac yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr Cymru 2014, y diffiniad o ysgol addas agosaf ar gyfer disgyblion sy'n mynychu ysgol brif ffrwd yw ysgol ddalgylch ragnodedig yr awdurdod addysg lleol.

Ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, tîm Anghenion Cymhleth y Cyngor fydd yn penderfynu ar y diffiniad o ysgol addas agosaf a bydd yn ystyried oedran, gallu a thueddfryd y disgyblion ac unrhyw anawsterau dysgu a allai fod ganddynt.

## HAWL I DRAFNIDIAETH YSGOL BRIF FFRWD


Darperir trafnidiaeth ysgol am ddim i ddisgyblion oed **ysgol gynradd brif ffrwd** os ydynt yn byw 2 filltir neu fwy o’u hysgol addas agosaf, fel y'u mesurir gan y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael, o'u hysgol addas agosaf, fel y'i diffinnir gan yr Awdurdod Addysg Lleol. (Disgyblion oed cynradd prif ffrwd at ddibenion y polisi hwn yw'r rhai o’r dosbarth derbyn hyd at Flwyddyn 6.)

Darperir trafnidiaeth ysgol am ddim i ddisgyblion oed **ysgol uwchradd brif ffrwd** os ydynt yn byw 3 milltir neu fwy o'u hysgol addas agosaf, fel y'u mesurir gan y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael, o'u hysgol addas agosaf, fel y'i diffinnir gan yr Awdurdod Addysg Lleol. (Disgyblion oed uwchradd prif ffrwd at ddibenion y polisi hwn yw'r rhai ym Mlwyddyn 7 i Flwyddyn 11. Fodd bynnag, yn ôl disgresiwn y Cyngor, mae hefyd yn berthnasol i'r disgyblion hynny ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 sy'n mynychu eu hysgol ddalgylch).

Ar hyn o bryd mae Cyngor Bro Morgannwg yn darparu trafnidiaeth ysgol am ddim i ddisgyblion oedran cynradd ac uwchradd prif ffrwd, fel y'u diffinnir uchod. Hefyd mae'r Cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn, yn darparu trafnidiaeth ysgol am ddim i ysgolion prif ffrwd Cymraeg a rhai ffydd.

Gellir gwirio ysgol ddalgylch disgyblion drwy roi cod post y cyfeiriad yn y swyddogaeth "Gwirio" ar wefan y Cyngor:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx)




Mewn amgylchiadau pan fydd yr ysgol brif ffrwd addas agosaf yn llawn a phan na chaiff disgybl ei dderbyn, dim ond i'r ysgol addas agosaf nesaf â lle y darperir trafnidiaeth am ddim rhwng y cartref a'r ysgol, fel y'i diffinnir a'i dyrannir gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Rhaid parhau i gydymffurfio â'r pellteroedd cymwys fel y nodwyd uchod.

Y Cyngor, fel yr Awdurdod Addysg Lleol ynghyd â'r ysgolion fydd yn penderfynu os yw ysgol yn llawn mewn unrhyw flwyddyn academaidd. Dim ond pan fydd y wybodaeth angenrheidiol wedi dod i law a'i chadarnhau y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud gan y Cyngor o ran darparu trafnidiaeth ysgol am ddim i'r ysgol addas agosaf nesaf.

Pan fo disgybl, o ganlyniad i ddewis y rhieni, yn mynychu ysgol heblaw'r ysgol addas agosaf fel y'i diffinnir gan yr Awdurdod Addysg Lleol, rhaid deall bod rhieni'n derbyn cyfrifoldeb llawn am gostau a threfniadau trafnidiaeth.

Os gwneir cais yn ddiweddarach am dderbyn i'r ysgol addas agosaf ar ôl dewis a mynychu ysgol nad yw'n ysgol ddalgylch i ddechrau (dewis rhieni) a bod yr ysgol addas agosaf yn llawn o ganlyniad, ni ddarperir trafnidiaeth ysgol am ddim i'r ysgol bresennol nad yw'n ysgol ddalgylch nac i ysgol arall nad yw'n ysgol ddalgylch. Rhaid i rieni ystyried hawl eu plentyn i gael trafnidiaeth cyn dewis lle mewn ysgol.

Os bydd disgybl yn symud cyfeiriad, mae angen i rieni/gofalwyr hysbysu'r Tîm Trafnidiaeth Teithwyr a chynhelir asesiad cymhwysedd trafnidiaeth unigol.

## HAWL I DRAFNIDIAETH YSGOL ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Bydd cymhwysedd disgyblion **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** â gofynion teithio penodol na ellir eu bodloni gydag addasiad rhesymol ar drafnidiaeth brif ffrwd yn cael ei bennu gan Dîm Anghenion Cymhleth y Cyngor.

Bydd disgyblion ADY yn gymwys i gael trafnidiaeth ysgol am ddim os asesir bod ganddynt anawsterau difrifol a/neu gymhleth a'u bod yn mynychu ysgol arbennig yn unol â chyfarwyddyd y Tîm Anghenion Cymhleth.

Bydd disgyblion ADY yn cael eu hasesu ar gyfer trafnidiaeth ysgol am ddim os oes ganddynt anawsterau difrifol a/neu gymhleth a'u bod yn mynychu canolfan adnoddau ysgol, yn unol â chyfarwyddyd y tîm Anghenion Cymhleth.
Rhoddir ystyriaeth i drafnidiaeth ysgol am ddim i ddisgyblion ADY sy'n byw o fewn 2 neu 3 milltir ar sail unigol, gan gydymffurfio ag Adran 9 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, gan sicrhau tegwch a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth cydraddoldeb berthnasol er mwyn sicrhau nad oes gwahaniaethu anghyfreithlon rhwng dysgwyr. Gwneir y penderfyniad hwn mewn ymgynghoriad â'r holl bartïon perthnasol.

Os na all disgybl gerdded i'r ysgol (naill ai gyda chymorth oedolyn priodol neu'n annibynnol yn dibynnu ar ei oedran/gallu) oherwydd natur ei anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd, gall y Cyngor ddarparu trafnidiaeth am ddim rhwng y cartref a'r ysgol hyd yn oed os yw'r pellter yn llai na'r terfyn statudol.

Y Tîm Trafnidiaeth Teithwyr fydd yn gwneud y penderfyniad ar hyn ar y cyd ag ysgolion a'r Tîm Anghenion Cymhleth.

Os yw'n bosibl, ac os bydd y dysgwr, y rhiant/gofalwr, yr ysgol a'r Tîm Anghenion Cymhleth yn cytuno, gellir cynnig darpariaeth cynorthwyydd teithwyr yn lle trafnidiaeth i alluogi'r disgybl i gyrraedd yr ysgol yn annibynnol. Mae hyn yn hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy ac yn annog byw'n annibynnol yn ogystal ag iechyd a lles.

Wrth gynnal asesiadau o anghenion dysgu ychwanegol plentyn, bydd y Tîm Anghenion Cymhleth yn casglu gwybodaeth gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol allweddol ac yn pennu'r ddarpariaeth a'r lleoliad sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny. Bydd unrhyw ofynion unigol ar gyfer trafnidiaeth yn cael eu hasesu fel rhan o'r broses hon mewn ymgynghoriad â'r tîm trafnidiaeth teithwyr.

## Lleoliadau Diwrnod Ysgol y tu allan i Fro Morgannwg

Os nad yw darpariaeth i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol disgybl ar gael ym Mro Morgannwg, gellir penderfynu mai ysgol ddydd mewn awdurdod gwahanol yw'r lleoliad priodol agosaf. Os felly, bydd trafnidiaeth yn cael ei ddarparu'n ddyddiol fel arfer. Rhaid i'r Tîm Anghenion Cymhleth gytuno ar y lleoliad hwn.

## Lleoliadau Preswyl Mewn Ysgolion y tu allan i Fro Morgannwg

Mae nifer fach iawn o ddisgyblion sydd â'r anghenion dysgu ychwanegol mwyaf cymhleth yn mynychu lleoliadau ysgol breswyl. Y Tîm Anghenion Cymhleth sy'n penderfynu p’un a yw hyn yn briodol. Caiff trefniadau a chostau trafnidiaeth eu hystyried fel rhan o'r broses sy'n ymwneud â phenderfyniadau lleoli. Gellir darparu trafnidiaeth ar y sail ganlynol:

- Llety wythnosol neu bob pythefnos – trafnidiaeth i'r plentyn ddychwelyd adref bob wythnos neu bob pythefnos yn ystod y tymor.
- Llety 38 wythnos bob tymor – trafnidiaeth ar ddechrau a diwedd pob hanner tymor ac un daith ddychwelyd ychwanegol am bob hanner tymor.
- Lleoliadau preswyl 51/52 wythnos – un daith ddychwelyd y tymor

## Darpariaeth Trafnidiaeth ADY arall

Ni ddarperir trafnidiaeth ar gyfer integreiddio nac ar gyfer asesiad cyn trosglwyddo i ysgol neu uned arbennig. Dim ond pan gytunir ar y lleoliad parhaol y darperir trafnidiaeth.

Os bydd rhieni'n gwrthod cynnig lleoliad mewn ysgol sy’n briodol ar gyfer anghenion eu plentyn ac yn ffafrio ysgol briodol arall, bydd rhieni'n dod yn gyfrifol am ddarparu trafnidiaeth i'r ysgol a'r gost ariannol.

O dan amgylchiadau arferol, ni fydd y Tîm Trafnidiaeth Teithwyr yn darparu trafnidiaeth i lety seibiant. Fodd bynnag, lle gall trafnidiaeth ysgol bresennol gynnig trafnidiaeth i'r ddarpariaeth seibiant ac oddi yno heb oedi a heb wyro oddi wrth y llwybr, gellir ystyried hyn. Bydd y gost yn cael ei hadennill o'r gwasanaeth perthnasol. Rhaid i unrhyw gais am drafnidiaeth i ofal seibiant gael ei wneud yn uniongyrchol i'r Tîm Trafnidiaeth Teithwyr ac nid i yrwyr/cynorthwywyr teithwyr/gweithredwyr yn uniongyrchol.

Os penderfynir y dylai Plentyn sy'n Derbyn Gofal (PDG) fynychu ysgol ar wahân i'r un addas agosaf i'w breswylfa bresennol oherwydd yr angen i gynnal parhad mewn addysg neu gyswllt â brodyr a chwiorydd a ffrindiau, darperir trafnidiaeth gan y Tîm Trafnidiaeth Teithwyr a'i godi'n ôl ar gyllideb y Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal. Fel arall, o dan Adran 18 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, gellir adennill costau gwneud y trefniadau teithio oddi wrth yr awdurdod sy'n gofalu am y plentyn.

**TRAFNIDIAETH ADDYSG BELLACH (16 i 19 oed)**

Mae dysgwyr 16 i 19 oed sy'n byw ym Mro Morgannwg yn cael teithio am ddim os ydynt yn byw dair milltir neu fwy o'u sefydliad addysg bellach priodol agosaf ar gyfer y cwrs y maent yn ymgymryd ag ef.  Os dewisir cwrs sydd ar gael mewn sefydliad sy'n agosach at gyfeiriad cartref y myfyriwr, ni fydd trafnidiaeth ysgol am ddim yn cael ei darparu.

Dim ond i sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus ym Mro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd y darperir trafnidiaeth am ddim.

Bydd Trafnidiaeth Briodol o'r Cartref i'r Ysgol yn parhau i gael ei darparu ar gyfer disgyblion ADY rhwng 16 a 19 oed (dan 19 oed ar 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd) sy'n parhau â'u haddysg yn y sefydliad addysgol y cytunwyd arno gan y Tîm Anghenion Cymhleth.

**GWYBODAETH YCHWANEGOL**

**Nid yw'r gwasanaeth yn gallu ystyried y canlynol wrth ystyried hawl i drafnidiaeth:**

- Gwaith neu ymrwymiadau eraill y rhieni
- Brodyr a chwiorydd mewn ysgolion eraill
- Os yw rhiant yn dewis anfon ei blentyn at ysgol/darparwr addysg nad yw'n ysgol ddalgylch neu'r ysgol briodol agosaf i'r cyfeiriad cartref
- Lleoliad profiad gwaith
- Lleoliad yn y gwaith
- Cyfeiriad ar wahân i gyfeiriad y cartref, gan gynnwys gwarchodwyr/perthnasau plant
- Taith o un sefydliad addysgol i'r llall
- Ymweliadau ad hoc ag ysgolion, colegau neu sefydliadau eraill
- Clybiau y tu allan i'r oriau arferol (e.e. brecwast, gweithgaredd ar ôl ysgol)
- Cyrsiau cyswllt
- Unrhyw ddarpariaeth addysgol a gynlluniwyd dros benwythnosau neu wyliau banc
- Trefniadau seibiant ac eithrio fel y nodir ar wahân (gweler yr adran Seibiant)
- Mynychu ysgol/uned/dosbarth arbennig am gyfnod o asesu
- Mynd i apwyntiadau meddygol
- Casglu o'r ysgol oherwydd salwch
- Gofynion cadw ar ôl ysgol
- Presenoldeb rhieni mewn cyfarfodydd
- Amserlenni rhan-amser
- Bodloni amserlenni arholiadau neu glybiau ysgolion estynedig

Darperir trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol/coleg ar ddechrau'r dydd, a'r ysgol/coleg i'r cartref ar ddiwedd y dydd.

**Codau Canllawiau**

Mae'r Cyngor wedi llunio cod canllawiau ar gyfer y canlynol:

Gweithredwyr Trafnidiaeth Ysgol
Gyrwyr Trafnidiaeth Ysgol
Cynorthwywyr Teithwyr Trafnidiaeth Ysgol
Disgyblion
Rhieni
Ysgolion

Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan y Cyngor ac maent yn rhan o'r polisi hwn.

Fel rhan o'r polisi hwn, rhaid i'r parti perthnasol gadw at bob cod canllaw.

**Cod Ymddygiad wrth Deithio Llywodraeth Cymru**

Dylai pob disgybl sy'n cael ei gludo i'r ysgol/coleg ac oddi yno gadw at God Ymddygiad wrth Deithio Llywodraeth Cymru.

Cydnabyddir, fodd bynnag, na all ymddygiad rhai disgyblion ADY fod yn destun y cosbau rhagnodedig sydd ar waith ar drafnidiaeth brif ffrwd gan y gallai fod yn symptom o'u cyflwr meddygol na ellir ei reoli.

Mae disgyblion sy'n mynychu Unedau Cyfeirio Disgyblion yn ddarostyngedig i'r cod ymddygiad wrth deithio ar y sail bod y cod ymddygiad wrth deithio yn berthnasol i bob dysgwr rhwng 5 a 19 oed.

**Ffurflenni Cais am Drafnidiaeth (Trafnidiaeth Ysgol ADY)**

Bydd y Tîm Anghenion Cymhleth yn anfon ffurflen Cais am Drafnidiaeth at rieni/gofalwyr disgyblion cymwys er mwyn iddynt ei gwirio, ychwanegu gwybodaeth bellach ati, ei diwygio, ei llofnodi a'i dychwelyd. Dyma gyfle'r rhieni/gofalwyr i sicrhau bod y darparwr trafnidiaeth yn cael gwybod am yr holl wybodaeth sy'n angenrheidiol i gludo eu plentyn yn ddiogel. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'r Tîm Trafnidiaeth Teithwyr lle bydd trafnidiaeth addas yn cael ei threfnu.

Ar ôl derbyn y ffurflen wedi'i llofnodi, fel arfer mae angen deg diwrnod (ysgol) i drefnu trafnidiaeth a rhoi gwybod i bob parti am y trefniadau a fydd yn cael eu rhoi ar waith. Ni fydd cadeiriau olwyn yn cael eu cludo nes bod "tag" wedi'i roi gan y Tîm Trafnidiaeth Teithwyr sy'n darparu gwybodaeth am systemau ataliad addas ar gyfer cadeiriau olwyn a theithwyr ar gyfer y math hwnnw o gadair olwyn.

**Pasys Bws (trafnidiaeth brif ffrwd)**

Bydd y Cyngor yn anfon pasys bws unigol, i'r rhai sy'n gymwys i gael trafnidiaeth ysgol am ddim, ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol dros wyliau'r haf. Gwrthodir teithio i unrhyw ddisgybl nad yw'n dangos tocyn bws neu lythyr gan yr ysgol, i'r gyrrwr. Mae'r Cyngor yn gofyn i bob gweithredwr lynu'n dynn wrth y rheol "dim teithio" (mae'r manylion i'w gweld yn y Cod Canllawiau).

Gall unrhyw gais am drafnidiaeth yn ystod y tymor gymryd hyd at ddeg diwrnod ysgol i'w brosesu.

**Pasys bws newydd**

Ym mhob amgylchiad, cyfrifoldeb y rhiant/gofalwr yw talu am gost pàs bws newydd os bydd yr un gwreiddiol wedi'i golli neu ei ddifrodi. Dylid cysylltu â'r tîm Trafnidiaeth Teithwyr cyn gynted â phosibl er mwyn talu am bàs newydd cyn cyhoeddi un newydd.

Gall gymryd hyd at ddeg diwrnod ysgol ar ôl i'r ffurflen pàs bws newydd ddod i law i anfon y pàs newydd. Gellir anfon e-bost tra bo'r ffurflen yn cael ei phrosesu i sicrhau y gall y disgybl barhau i deithio.

**Brodyr a chwiorydd**

O safbwynt addysgol, mae'r Cyngor, fel Awdurdod Addysg Lleol, yn cynnig lle i ddisgyblion yn yr un ysgol â'u brodyr a chwiorydd, hyd yn oed mewn achosion lle nad yr ysgol ddalgylch yw'r ysgol agosaf sydd ar gael. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i gynnig trafnidiaeth ysgol am ddim mewn achosion o'r fath a chyfrifoldeb rhieni fydd talu'r costau a threfnu cludo eu plentyn/plant i'r ysgol ac oddi yno. Fodd bynnag, efallai y bydd achosion lle gellir prynu sedd sbâr ar wasanaethau trafnidiaeth ysgol presennol – gweler yr adran prynu seddau sbâr.

**Asesiadau Llwybr Cerdded**

Cynhelir pob asesiad llwybr cerdded fel ymarfer desg i ddechrau, a bydd yr asesiad hwn yn nodi'r pellter o ffin eiddo'r disgybl (ac eithrio ffyrdd preifat) i'r gât gyntaf sydd ar gael i'r ysgol. Cynhyrchir yr holl fesuriadau gan ddefnyddio meddalwedd systemau gwybodaeth ddaearyddol (GIS) mewnol y Cyngor. Os caiff y pellter ei gwestiynu, gellir ei fesur â llaw neu gyfeirio at asesiadau llaw blaenorol os oes mesuriad o ardal debyg i'r un ysgol eisoes wedi'i wneud.

**Llwybrau Cerdded Nad Ydynt ar Gael**

Mae dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth am ddim os bernir nad oes llwybr cerdded ar gael. Mae argaeledd llwybr cerdded yn seiliedig ar Asesiad Risg Llywodraeth Cymru o Ganllawiau Llwybrau Cerdded i'r Ysgol (pennod 5 o Ganllawiau Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr 2014).

Ystyrir bob llwybr yn ôl ei deilyngdod ei hun. Os oes anghytundeb o hyd ar ôl unrhyw asesiad cychwynnol, gall y Cyngor benodi cwmni annibynnol i asesu'r llwybr.

Os bernir nad yw llwybr cerdded ar gael yn unol â'r canllawiau, ni fydd y Cyngor yn ad-dalu unrhyw gostau a ysgwyddir gan rieni cyn i'r adroddiad asesu llwybrau cerdded ddod i law.

**Cysylltiadau trafnidiaeth**

Bydd y Cyngor yn arfer disgresiwn wrth benderfynu a fydd yn darparu cyswllt tacsi i wasanaeth bws sy'n bodoli eisoes ar gyfer y disgyblion hynny sy'n byw mewn lleoliadau gwledig.

**Symudiad Wedi'i Reoli rhwng ysgolion**
Mewn amgylchiadau eithriadol lle mae symudiad wedi'i reoli wedi ei drefnu rhwng dwy ysgol gall disgybl fod yn gymwys i gael cludiant ysgol am ddim. Rhaid rhoi tystiolaeth o'r symudiad a reolir i'r tîm Gwasanaethau Trafnidiaeth a fydd yn asesu a yw'n gymwys.

**Prynu Sedd Sbâr**

O bryd i'w gilydd mae'n bosibl y bydd nifer y disgyblion sydd â hawl i drafnidiaeth am ddim yn is na chapasiti'r cerbyd a ddefnyddir. Mewn achosion o'r fath, bydd y Cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn, yn anelu at sicrhau bod seddi sbâr ar gael i ddisgyblion eraill, nad ydynt yn gymwys i gael trafnidiaeth ysgol am ddim, am dâl.

Caiff ceisiadau eu trin ar sail y cyntaf i'r felin, ac mae manylion y ffurflenni dyddiad ar gael ar y wefan Trafnidiaeth Ysgol bythefnos cyn diwedd tymor yr Haf.
Rhaid talu'r gost ar gyfer y sedd sbâr yn llawn cyn y bydd pàs yn cael ei roi. I brynu sedd sbâr, rhaid cyflwyno cais bob blwyddyn ysgol. Ni fydd gan ddisgybl y dyrennir sedd iddo un flwyddyn hawl awtomatig i brynu sedd sbâr y flwyddyn ganlynol am y rhesymau canlynol:

- efallai na fydd capasiti dros ben mwyach;
- mae'r cais wedi'i gyflwyno'n hwyrach nag eraill ac nid oes seddi sbâr ar gael mwyach;

Rhaid deall nad yw'n ofynnol bod y Cyngor yn darparu'r cyfleuster hwn ac mae'n dibynnu ar gapasiti'r cerbyd a ddefnyddir, a gall arwain at ddiddymu'r cyfleuster ar fyr rybudd er mwyn rhoi lle i ddisgyblion sy'n gymwys am drafnidiaeth am ddim. Os caiff y cyfleuster ei ddiddymu, caiff rhieni eu had-dalu am unrhyw ordaliad sydd wedi'i wneud. At hynny, nid yw'n ofynnol bod y Cyngor yn darparu'r cyfleuster hwn ar gyfer y blynyddoedd i ddod os bydd rhiant yn prynu pàs mewn unrhyw flwyddyn.

Prynir pàs gan wybod na fydd yr amserlen a gyhoeddir yn cael ei diwygio. Ni fydd unrhyw filltiroedd neu safleoedd bws ychwanegol yn cael eu hychwanegu at unrhyw wasanaeth i ddarparu ar gyfer disgyblion sy'n prynu pàs.

Ni fydd ceisiadau am basys a brynir yn cael eu hystyried hyd nes y bydd pob disgybl â hawl wedi cael seddi. Gall hyn olygu na fydd ceisiadau ar gyfer dechrau'r flwyddyn ysgol (Medi) yn cael eu hystyried tan fis Hydref.

Gall y Cyngor hefyd wneud y penderfyniad i beidio â gwerthu seddi sbâr ar gerbydau lle mae'r capasiti yn agos at lawn.

Dylid nodi na fydd y Cyngor yn gwerthu seddi sbâr i'r disgyblion hynny sy'n mynychu unedau meithrin. Mae hyn yn bennaf gan nad yw'r gymhareb o ddisgyblion i oruchwylwyr ar drafnidiaeth ysgol yn cyfateb i gymhareb unedau meithrin ysgolion.

**Taliadau i rieni/gofalwyr**

Gallai'r awdurdod gytuno i ad-dalu rhiant/gofalwr sy'n cludo ei blentyn i'r ysgol ac oddi yno am gostau teithio pan ystyrir mai dyma'r trefniant mwyaf priodol, fel arfer lle nad oes trafnidiaeth arall ar gael.

Bydd y taliad ar ffurf taliad milltiroedd, cyfradd ddyddiol y cytunwyd arni neu gost y tocyn trafnidiaeth gyhoeddus a hynny'n fisol ar ffurf ôl-daliad.

Ni ellir cyflwyno ceisiadau am daliad tan ddiwrnod ysgol olaf y mis a gallant gymryd hyd at 28 diwrnod i'w prosesu.

**Newid Cyfeiriad**

Dylai unrhyw newid cyfeiriad gael ei adrodd yn uniongyrchol i'r Tîm Trafnidiaeth Teithwyr a all ailasesu'r hawl i drafnidiaeth a threfnu cludiant amgen yn ôl y gofyn. Bydd angen i'r ysgol gadarnhau'r newid cyfeiriad.

Efallai y bydd angen deg diwrnod ysgol o rybudd i drefnu trafnidiaeth amgen os nad yw llwybr presennol sydd lle sydd ar gael yn gweithredu'n agos at y cyfeiriad newydd.

**Newid Dalgylchoedd**

Os bydd dalgylch yn newid ar unrhyw adeg, bydd yr hawl i drafnidiaeth ysgol am ddim yn unol â'r dalgylchoedd fel y nodir gan yr Awdurdod Addysg Lleol.

**Gwahanol Gyfeiriadau Rhieni**

Gall disgyblion sy'n byw mewn gwahanol gyfeiriadau rhieni drwy gydol yr wythnos ysgol gael lle ar ddau wasanaeth trafnidiaeth ysgol ar wahân. Mae hyn ar yr amod bod y ddau gyfeiriad yn bodloni'r meini prawf cymhwyso ac mae'r ddau yn gyfeiriadau cofrestredig gyda'r ysgol.

Dylid nodi bod angen i un o'r cyfeiriadau fod yn nalgylch yr ysgol y mae'r disgybl yn ei mynychu.

**Newid Cyfeiriad – disgyblion TGAU**

Os bydd disgybl yn symud cyfeiriad pan fydd ym Mlwyddyn 10 (ar ôl gwyliau hanner tymor ym mis Hydref) neu ym Mlwyddyn 11, bydd ceisiadau am drafnidiaeth ysgol am ddim yn cael eu hystyried ar sail unigol.

Dim ond i'r disgyblion hynny sydd eisoes yn byw neu'n symud i Fro Morgannwg y rhoddir ystyriaeth.

**Trafnidiaeth am ddim wedi'i ddyfarnu ar gam**

Os gwneir camgymeriad neu os bydd deddfwriaeth yn newid, gall hyn effeithio ar hawl disgybl neu ddisgyblion sy'n defnyddio trafnidiaeth ysgol. Bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu trafnidiaeth ar gyfer y disgybl neu'r disgyblion hynny am weddill yr hanner tymor academaidd y canfuwyd y camgymeriad ynddo neu y daeth y ddeddfwriaeth i rym.

**Cyfrifoldeb rhiant/gofalwr cyn mynd ar y cerbyd ac wrth ddod oddi ar y cerbyd**

Cyfrifoldeb y rhiant/gofalwr yw sicrhau diogelwch ei blentyn/plant cyn iddynt gael eu derbyn ar drafnidiaeth ysgol yn y bore.

Yn yr un modd, cyfrifoldeb y rhiant/gofalwr yw sicrhau diogelwch y plentyn ar ôl dod oddi ar gerbyd ar y ffordd adref.

Ni fydd y Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb pan na fydd rhiant yn cwrdd â'i blentyn, naill ai mewn safle bws neu gyfeiriad cartref, ar adeg cyrraedd ar daith brynhawn, neu pan fydd disgybl yn anghofio ei bàs bws ac nad yw'n cael ei dderbyn ar y cerbyd.

**Gollwng disgyblion Cynradd Prif Ffrwd yn y prynhawn**

Mae gan y Cyngor weithdrefn glir y dylai gweithredwyr trafnidiaeth ei dilyn wrth gludo disgyblion oed cynradd.

Y weithdrefn i'w dilyn os nad oes unrhyw berson cyfrifol yn bresennol:

1. Cysylltwch â'r tîm Trafnidiaeth Teithwyr a fydd yn ceisio cysylltu â'r rhiant/gofalwr;
2. Os na ellir cysylltu â’r rhiant/gofalwr, parhewch â'r daith hyd nes y cyrhaeddir y safle bws olaf;
3. Os nad oes cyswllt o hyd ar y safle bws olaf, dychwelwch y disgybl i'r ysgol;
4. Gellir gwneud trefniadau wedyn, gan ystyried diogelwch y disgybl.

Os nad yw rhiant/gofalwr yn cwrdd â disgybl yn rheolaidd, gallai hyn arwain at osod sancsiynau, fel gwahardd disgyblion dros dro o drafnidiaeth ysgol am ddim.

Dylai pob disgybl oedran cynradd gael ei drosglwyddo'n gorfforol i berson cyfrifol. Ni ddylid caniatáu i unrhyw ddisgybl gerdded o'r bws ei hun oni bai bod y Tîm Trafnidiaeth Teithwyr wedi cael caniatâd gan y rhieni.

**Gollwng disgyblion ADY yn y prynhawn**

Os nad yw’r rhiant/gofalwr gartref yn y prynhawn, bydd y gyrrwr yn gadael nodyn yn y tŷ gyda manylion cyswllt i ddweud ei fod ef/hi wedi galw ac wedi cysylltu â’r Gweithredwr Trafnidiaeth ar unwaith i gael cyngor.

**Gwregysau Diogelwch**

Mae angen gwregys diogelwch ar bob gwasanaeth trafnidiaeth ysgol dan gontract ar gyfer pob disgybl. Yr unig eithriad i hyn yw gwasanaethau bws sydd wedi'u cofrestru'n lleol.

**Teledu Cylch Cyfyng**

Polisi'r Cyngor yw darparu teledu cylch cyfyng ar bob gwasanaeth ysgol dan gontract lle mae capasiti'r cerbyd yn 21 sedd neu fwy. Bydd arwyddion clir yn cael eu harddangos ar gerbydau i ddangos hyn.

Lle bo’n berthnasol, efallai y bydd teledu cylch cyfyng wedi'i osod ar rai cerbydau sydd â chapasiti o dan 21 sedd.

**Cynorthwywyr Teithwyr**

Polisi'r Cyngor yw darparu cynorthwywyr teithwyr ar gyfer pob gwasanaeth ysgol gynradd prif ffrwd lle mae mwy nag 16 o ddisgyblion yn cael eu cludo.

Bydd cynorthwyydd teithwyr yn cael ei ddarparu ar drafnidiaeth ysgol ADY lle bo angen.

**Amodau Tywydd Garw**

Gall amodau tywydd beri problemau mawr o safbwynt darparu trafnidiaeth o’r cartref i’r ysgol. Gyda diogelwch flaenaf, contractwyr fydd â’r penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y gwasanaeth yn gweithredu ai peidio ac union amseriad y gwasanaeth os bydd yn rhedeg mewn cyfnod o dywydd garw dros ben.
Er mwyn rheoli hyn yn effeithiol, sicrhewch eich bod yn ymwybodol o’r tywydd diweddaraf drwy’r adeg a sicrhewch fod eich rhifau cyswllt ffôn yn gyfredol hefyd.

Bydd ysgolion yn hysbysu canolfan gyswllt Bro Morgannwg os byddant yn cau a bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi'n gyflym ar wefan Bro Morgannwg (www.bromorgannwg.gov.uk). Bydd y Tîm Trafnidiaeth Teithwyr hefyd yn ceisio diweddaru cyfrif Twitter Trafnidiaeth Gyhoeddus.

Os rhagwelir tywydd garw ac nad yw’r Cyngor wedi cyhoeddi fod yr ysgol(ion) yn cau, y contractwr fydd yn penderfynu os bydd y teithiau yn y bore yn weithredol. Os yw contractwr yn gweithredu yn y bore dylid disgwyl y bydd yn gweithredu yn y prynhawn oni bai fo’r tywydd yn gwaethygu’n sylweddol neu fod y rhagolygon yn darogan bod y tywydd am waethygu. Os na fydd teithiau boreol yn weithredol yn sgil tywydd garw, rhaid i gontractwyr roi gwybod i Benaethiaid a’r Tîm Trafnidiaeth Teithwyr o’u penderfyniad yn syth.

Pan wneir penderfyniad i beidio rhedeg siwrne’n y bore, rhaid i weithredwyr fod yn effro i’r ffaith y gall amodau wella i’r graddau bod siwrne yn y prynhawn yn bosib. Mae hyn yn hynod berthnasol lle bydd rhieni wedi mynd â’u plant i’r ysgol sydd fel rheol yn cael eu cludo ar drafnidiaeth ysgol. Yn y sefyllfaoedd hyn, rhaid i'r contractwr fod yn barod i gludo disgyblion adref yn y prynhawn. Ni fydd disgwyl i gontractwr fynd â phlentyn adref os aeth y plentyn i’r ysgol gyda’i riant a bod asesiad yn ystyried nad oes modd gweithredu siwrne yn y prynhawn.

Os bydd amodau'r tywydd yn gwaethygu yn ystod y dydd, mae’n bosib y bydd Penaethiaid yn penderfynu cau eu hysgolion yn gynnar. Mewn achosion felly gofynnir i gontractwyr ddarparu trafnidiaeth mor fuan ag y bo modd. Mae ysgolion

sy’n cau yn gynharach nag arfer yn gyfrifol am sicrhau bod rhieni disgyblion cynradd ac Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gael i dderbyn eu plant (neu wedi trefnu i oedolyn cyfrifol arall wneud hynny).

**Monitro Contractau**

Bydd yr holl wasanaethau trafnidiaeth i'r ysgol yn cael eu monitro o bryd i'w gilydd drwy gydol y flwyddyn academaidd. Mae'r Cyngor, ar ddiwrnodau amhenodol, yn cynnal hapwiriadau ar gontractau, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag amodau'r contract.

**Gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Rhaid i bob gyrrwr a chynorthwyydd teithwyr sy'n gweithredu gwasanaethau trafnidiaeth penodedig o'r cartref i'r ysgol ym Mro Morgannwg gwblhau gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).

Dim ond ar ôl i'r Cyngor roi caniatâd y gall unigolyn weithio ar wasanaethau trafnidiaeth ysgol y bydd y person hwnnw'n cael bathodyn adnabod.

**Hyfforddiant**

O bryd i'w gilydd, bydd yn ofynnol i yrwyr a chynorthwywyr teithwyr fynychu hyfforddiant perthnasol, a fydd yn helpu i ddeall a rheoli'r plant y maent yn eu cludo. Darperir hyfforddiant gan y Cyngor ar y cyd â'r ysgol a'r darparwr cludiant. Bydd y pynciau a drafodir yn dibynnu ar y gwasanaeth a ddarperir a byddant yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i godi a chario, defnyddio ataliadau priodol ar gadeiriau olwyn, diogelu plant a delio ag ymddygiad heriol.

Bydd angen Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol (TCP) ar rai gyrwyr i sicrhau eu bod yn gallu darparu gwasanaeth ac i gydymffurfio â'r gyfraith. Bydd y Cyngor a'r darparwr trafnidiaeth yn sicrhau bod y rhain ar waith lle bo hynny'n berthnasol.

**Cyswllt Ysgolion**

Bydd y Cyngor yn gofyn i bob ysgol gael aelod dynodedig o staff sy'n delio'n benodol â materion trafnidiaeth ysgol.

**Cyflyrau Meddygol Dros Dro**

Os na all disgybl prif ffrwd ddefnyddio trafnidiaeth brif ffrwd oherwydd cyflwr meddygol dros dro, ni fydd y Cyngor yn trefnu trafnidiaeth ar wahân.

Os oes gan ddisgybl ADY gyflwr meddygol dros dro, gellir darparu trafnidiaeth ar gais gan y Tîm Anghenion Cymhleth.

Bydd trafnidiaeth a ddarperir ar sail feddygol yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Bydd cyflyrau meddygol dros dro yn cael eu hadolygu bob hanner tymor neu'n gynt, yn dibynnu ar gyngor meddygol. Bydd cyflyrau meddygol tymor hwy yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

**Cyflyrau Meddygol Rhieni/Gofalwyr**

Ni ddarperir cymorth dan delerau'r polisi hwn ar gyfer person ifanc mewn perthynas ag anableddau/cyflyrau meddygol y naill neu'r llall o'i rieni/gofalwyr.

**Difrod i Gerbydau (prif ffrwd)**

Cynghorir gyrwyr a chynorthwywyr teithwyr i gysylltu â'r heddlu a'r Tîm Trafnidiaeth Teithwyr ar unwaith os oes perygl o niwed neu ddifrod bwriadol i'r cerbyd.

Cynghorir rhieni/gofalwyr, pan fo disgyblion wedi difrodi cerbyd neu os oes angen i'r gweithredwr lanhau'r cerbyd yn fwy nag arfer, efallai y bydd rhaid iddynt ad-dalu'r darparwr trafnidiaeth.

**Gweithdrefn Gwyno**

Dylid cyfeirio unrhyw gwynion at y Tîm Trafnidiaeth Teithwyr yn y lle cyntaf. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar flaen y ddogfen bolisi hon.

Ymchwilir i unrhyw gwynion sy’n dod i law gan rieni, disgyblion ac ysgolion ar unwaith. Os caiff y gŵyn ei chadarnhau, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gymryd unrhyw gamau priodol sy'n angenrheidiol yn unol ag amodau'r contract.

Yn unol â Chod Ymddygiad wrth Deithio Llywodraeth Cymru, ymchwilir i unrhyw gŵyn a wneir ynghylch ymddygiad disgyblion. Gall y Cyngor osod sancsiynau, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y digwyddiad, yn amrywio o waharddiad dros dro i waharddiad llwyr o drafnidiaeth.

**Y Broses Apelio**

Os ydych yn dymuno apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad ynghylch trafnidiaeth ysgol (gan gynnwys hawl i drafnidiaeth), gallwch gyflwyno'ch apêl yn ysgrifenedig i:

Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth
Cyngor Bro Morgannwg
Depo'r Alpau
Gwenfô
CF5 6AA